

Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

Cais am Dystiolaeth

Cafodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (Comisiwn) ei sefydlu gan Brif Weinidog Cymru i adolygu sut mae'r system gyfiawnder yn gweithredu ac i osod gweledigaeth hirdymor ar gyfer ei dyfodol, gyda'r nod o:

- Hyrwyddo gwell canlyniadau o ran mynediad at gyfiawnder, gostwng nifer yr achosion o droseddu a hybu'r broses adsefydlu.
- Sicrhau bod y trefniadau awdurdodaethol ac addysg gyfreithiol yn adlewyrchu ac yn rhoi sylw i rôl cyfiawnder yn llywodraethiant a ffyniant Cymru, yn ogystal â materion penodol sy'n codi yng Nghymru.
- Hyrwyddo cadernid a chynaliadwyedd sector gwasanaethau cyfreithiol Cymru a sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl i ffyniant Cymru.

Mae'r Comisiwn wedi penderfynu mynd ati yn y lle cyntaf drwy gasglu ac ystyried tystiolaeth mewn pum ffrwd waith:

- Cyfiawnder troseddol, gan gynnwys plismona, gwasanaeth prawf a charchardai
- Cyfiawnder sifil, cyfiawnder teuluol, cyfiawnder gweinyddol a thribiwnlysoedd
- Y proffesiwn cyfreithiol, technoleg gyfreithiol ac economi Cymru
- Addysg a hyfforddiant cyfreithiol a galwedigaethol
- Mynediad at gyfiawnder a materion cyffredinol eraill

Yng ngoleuni'r dystiolaeth a ddaw am y ffrydiau gwaith hyn a sylwadau cychwynnol y Comisiwn ynghylch unrhyw argymhellion ar gyfer newid, bydd y Comisiwn wedyn yn ystyried yr opsiynau ar gyfer cyfiawnder yng Nghymru gan gyfeirio at drefniadau llywodraethu ac awdurdodaethol.

Bydd y Comisiwn yn ceisio seilio'i argymhellion ar yr egwyddorion canlynol:

- i. Pwysigrwydd cyfiawnder ar gyfer llywodraethu da, ffyniant a thegwch o fewn cymdeithas yng Nghymru.
- ii. Rheolaeth y gyfraith ac annibyniaeth y farnwriaeth.
- iii. Sefydlu system gyfiawnder gadarn a chynaliadwy sy'n eglur, yn rhesymegol a, lle bo'n briodol, yn atebol yn lleol.
- iv. Darparu system gyfiawnder gyflym ac effeithiol ym mhob math o achos ac am gostau cymesur.
- v. Darpariaeth briodol o fynediad at gyfiawnder ar draws Cymru, gan gynnwys mynediad priodol at gyngor cyfreithiol a chyfreithwyr, gan ystyried daearyddiaeth a demograffeg Cymru, argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau eraill, digonolrwydd y seilwaith digidol ac ardaloedd o amddifadedd economaidd sylweddol, gwledig ac ôl-ddiwydiannol.
- vi. Cydlynu ac integreiddio gwasanaethau a chymorth yn briodol ar draws pob maes cyfiawnder, yn arbennig mewn perthynas â datrys problemau yn ymwneud â dyledion, tai a chyflogaeth, ac atal troseddu ac adsefydlu troseddwyr.
- vii. Darparu sector gwasanaethau cyfreithiol cryf a chynaliadwy sy'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf ac sy'n gystadleuol iawn o ran arbenigedd a chost.
- viii. Darparu addysg a hyfforddiant cyfreithiol a galwedigaethol sy'n gynhwysol yn gymdeithasol ac yn diwallu gofynion Cymru, sy'n gosteffeithiol ac sydd yn flaengar wrth arfogi cyfreithwyr ar gyfer arfer modern mewn marchnad fyd-eang.
- ix. Trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Bydd y Comisiwn yn gwahodd cyflwyniadau ysgrifenedig gan yr holl bartïon â buddiant hyd at 4 Mehefin 2018. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r cyflwyniadau yn gwneud y canlynol:

- cynnwys tystiolaeth ffeithiol, gydag enghreifftiau o brofiadau o'r system gyfiawnder yng Nghymru ac awgrymiadau o'r ffordd y gallai'r system gyfiawnder yn ei ystyr ehangaf (gan gynnwys plismona a'r gwasanaeth prawf) wasanaethu pobl Cymru'n well
- ystyried systemau a mesurau ymarferol, gweinyddol a chyfreithiol ac adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r nodau hynny.

Efallai y bydd rhai neu bob un o'r cwestiynau canlynol yn ddefnyddiol wrth baratoi eich cyflwyniadau, er bod nifer o faterion eraill hefyd y byddai'n ddefnyddiol i'ch ymatebion edrych arnynt:

1. Beth sy'n gweithio'n dda yn y system gyfiawnder troseddol yng Nghymru? Beth sydd ddim yn gweithio cystal? A oes enghreifftiau o arloesi ac arfer da, yng Nghymru a thu hwnt, y gellid eu mabwysiadu a'u rhannu?
2. Beth yw'r rhwystrau economaidd, cymdeithasol, daearyddol, technolegol, cyfansoddiadol ac o fath arall sy'n rhwystro gwelliannau, a sut y gellid eu goresgyn?
3. Pa broblemau sy'n wynebu'r bobl sy'n gweithio o fewn y system gyfiawnder yng Nghymru (gan gynnwys yr heddlu, y gwasanaeth erlyn, y llysoedd, y carchardai a'r gwasanaeth prawf) a'r bobl sy'n cael eu heffeithio ganddynt?
4. A yw'r system gyfiawnder yng Nghymru ar hyn o bryd yn darparu mynediad i bawb sydd angen y gwasanaethau, gan gynnwys cyngor? Sut fyddech chi'n gwella mynediad at gyfiawnder yng Nghymru?
5. Pa effaith mae datganoli wedi'i chael ar y system gyfiawnder yng Nghymru? Pa effaith fydd datganoli yn ei chael yn y dyfodol, yn eich barn chi?

6. A fyddai modd i wasanaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â chyfiawnder a darpariaeth leol o gyngor cyfreithiol gael eu trefnu a'u cydlynu'n well gyda'r heddlu, y gwasanaeth erlyn, y llysoedd, carchardai a'r gwasanaeth prawf?
7. A ddylid gwneud newidiadau i'r ffyrdd y mae'r heddlu, y gwasanaeth prawf a charchardai yn mynd i'r afael â'u tasgau? Beth y gellid ei wneud i wella diogelwch cymunedol, llesiant a chydlyniant cymunedol, a lleihau nifer yr achosion o droseddu? Beth y gellid ei ddysgu gan wledydd eraill lle mae cyfraddau troseddu a charcharu yn is?
8. Pa effaith mae'r ymrannu rhwng cyfraith Cymru a Lloegr yn ei chael ar ddedfrydau? Pa effaith ydych chi'n ei rhagweld yn y dyfodol? A ddylai Cymru roi trefn ddedfrydu wahanol i Loegr ar waith? Os felly, pa wersi y gellid eu dysgu gan awdurdodaethau eraill?
9. Beth yw gallu'r system gyfiawnder yng Nghymru ar gyfer ymateb i Brexit?
10. Pa gamau sydd angen eu cymryd yn eich barn chi i hwyluso newid cadarnhaol yn y system gyfiawnder yng Nghymru?
11. Sut y gellid hybu cryfder a chynaliadwyedd y sector cyfreithiol yng Nghymru? Sut y gellid manteisio i'r eithaf ar ei gyfraniad i ffyniant Cymru?
12. I ba raddau mae'r cwricwlwm prifysgol a'r cyrsiau galwedigaethol a datblygu proffesiynol presennol yn adlewyrchu'r gyfraith yng Nghymru, a'r angen i fynd i'r afael â'r chwyldro digidol, a sut y dylid eu datblygu ymhellach?
13. Beth yw'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer y Gymraeg yn y system gyfiawnder ac addysg gyfreithiol yng Nghymru? Sut y dylid gwella darpariaeth cyfrwng Gymraeg yn y system gyfiawnder ac addysg gyfreithiol yng Nghymru?
14. A oes mynediad priodol at gyfraith Cymru ar gael?

Sut i ddarparu tystiolaeth

Gellir anfon tystiolaeth, yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn electronig at y Comisiwn drwy ComisiwnCyfiawnder@llyw.cymru neu gallwch anfon copi caled drwy'r cyfeiriad post:

Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

Adeiladau'r Goron

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Dylech gyflwyno eich tystiolaeth i'r Comisiwn cyn 4 Mehefin 2018.

Bydd ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn falch o ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych ynghylch y cais hwn am dystiolaeth drwy e-bost ComisiwnCyfiawnder@llyw.cymru.

Gwybodaeth i'w chynnwys

Rhowch wybod i'r Comisiwn os ydych yn ysgrifennu yn bersonol neu ar ran sefydliad. Os ydych yn ysgrifennu ar ran sefydliad, byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn cadarnhau ei ddiben, ei faint a'i aelodaeth.

Ffurf eich tystiolaeth

Dylech gynnwys cyfeiriadau at ffynonellau'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu yn eich cyflwyniad.

Dylech roi rhifau ar y paragraffau er mwyn helpu'r Comisiwn wrth gyfeirio at eich tystiolaeth. Os byddwch yn cyflwyno tystiolaeth electronig, dylech ei anfon ar ffurf dogfen Word neu PDF. Dylai unrhyw ddefnydd o liwiau yn eich tystiolaeth fedru cael ei atgynhyrchu yn ddu a gwyn, gan ei bod yn bosibl y bydd y Comisiwn yn defnyddio ffotocopiau.

Sut bydd y Comisiwn yn defnyddio eich tystiolaeth

Bydd y dystiolaeth yn cael ei hystyried wrth ddrafftio adroddiad y Comisiwn ac mae'n bosib y bydd cyfeiriadau penodol at rai darnau o dystiolaeth. Mae'r Comisiwn yn

bwriadu cyhoeddi'r holl dystiolaeth sy'n dod i law ar y wefan, ond bydd yn ystyried yn ofalus unrhyw geisiadau am beidio â chyhoeddi dystiolaeth neu beidio ag enwi awdur penodol (ond, gyda chaniatâd, efallai y bydd y Comisiwn am gyfeirio ato fel dystiolaeth anecdotaidd).

Os nad ydych am i'ch ymateb neu eich enw gael ei gyhoeddi, dylech nodi hyn yn glir gyda'ch dystiolaeth, gan roi rhesymau.

27 Chwefror 2018